

## Canser y prostad

Mae'r daflen ffeithiau hon yn disgrifio sut y gwneir diagnosis o ganser y prostad a sut mae'n cael ei drin.

Mae gennym daflenni ffeithiau hefyd am cemotherapi, radiotherapi, llawdriniaeth, sgil effeithiau triniaeth canser, yr hyn y gallwch ei wneud i helpu'ch hun, hawlio budd-daliadau a diwedd oes.

Gobeithiwn y bydd y daflen ffeithiau hon yn ateb eich cwestiynau. Os oes gennych ragor o gwestiynau, gallwch holi'r meddyg neu'r nyrs yn eich ysbyty lle byddwch yn cael eich triniaeth.

Os hoffech gael sgwrs am yr wybodaeth hon â'n harbenigwyr cymorth canser yn eich iaith eich hun, mae gennym gyfieithwyr ar gyfer rhai nad ydynt yn siarad Saesneg. Ffoniwch Linell Gymorth Macmillan am ddim ar **0808 808 00 00**, dydd Llun i ddydd Gwener, 9am–8pm. Os ydych yn drwm eich clyw gallwch ddefnyddio ffôn testun **0808 808 0121**, neu Text Relay. Neu gallwch fynd i'n gwefan **macmillan.org.uk**

Mae'r daflen ffeithiau hon yn trafod:

- Beth yw canser?
- Y prostad
- Beth yw canser y prostad?
- Achosion a ffactorau risg
- Symptomau
- Sut mae gwneud diagnosis o ganser y prostad?
- Camau a graddio
- Triniaeth
- Treialon clinigol
- Dilyniant
- Ymdopi â chanser y prostad
- Eich teimladau
- Rhagor o wybodaeth yn eich iaith

## **Beth yw cancer?**

Mae organau a meinweoedd y corff wedi eu gwneud o flocliau adeiladu bychan a elwir yn gelloedd. Afiechyd o'r celloedd hyn ydi cancer.

Mae celloedd ym mhob rhan o'r corff yn wahanol ond mae'r rhan fwyaf ohonynt yn trwsio ac yn atgynhyrchu eu hunain yn yr un ffordd. Fel arfer, mae celloedd yn rhannu mewn ffordd drefnus. Ond os bydd y broses yn chwalu, mae'r celloedd yn parhau i rannu ac yn datblygu'n lwmp a elwir yn diwmor.

Nid yw pob tiwmor yn ganser. Gall meddygon ddweud a yw tiwmor yn ganser drwy gymryd sampl bychan o feinwe neu gelloedd ohono. Yr enw ar hyn yw biopsi. Mae'r meddygon yn archwilio'r sampl o dan ficrosgop i chwilio am gelloedd cancer.

Mewn tiwmor anfalaen (di-ganser), gall y celloedd dyfu ond ni allant ymledu i unrhyw ran arall o'r corff. Ni fydd yn achosi problemau fel arfer oni bai ei fod yn pwyso yn erbyn organau cyfagos.

Mewn tiwmor malaen (canseraidd), mae'r celloedd yn tyfu i mewn i feinwe cyfagos. Weithiau, bydd celloedd cancer yn ymledu o ble dechreuodd y cancer gyntaf (y safle cychwynnol) i rannau eraill o'r corff. Gallant deithio drwy'r gwaed neu'r system lymffatig.


Mae'r system lymffatig yn helpu i'n hamddiffyn rhag heintiau a chlefydau. Mae wedi'i gwneud o diwbiau mân o'r enw llestri lymff. Mae'r rhain yn cysylltu â grwpiau o nodau lymff siâp ffa (chwarennau) dros y corff i gyd.

Pan fydd y celloedd yn cyrraedd rhan arall o'r corff, gallant ddechrau tyfu a ffurfio tiwmor arall. Gelwir hyn yn ganser eilaidd neu'n fetastasis.

## **Y prostad**

Mae gan bob dyn chwarren fechan a elwir yn brostad. Mae'n amgylchynu rhan gyntaf y tiwb (wrethra) sy'n cario wrin o'r bledren ar hyd y pidyn. Mae tua'r un maint â chneuen Ffrengig ac yn tyfu ychydig yn fwy gydag oed.

## Organau rhyw gwrywaidd a'r strwythurau amgylchynol



Mae'r prostad yn cynhyrchu hylif trwchus, gwyn. Mae hwn yn cymysgu â'r sberm a gynhyrchir gan y ceilliau i wneud semen. Mae hefyd yn cynhyrchu protein a elwir yn antigen penodol i'r prostad (PSA) sy'n troi'r semen hwnnw i hylif.

Mae cefn y chwarren brostad yn agos at y rectwm (twll y pen ôl). Yn agos at y prostad mae casgliadau o nodau lymff. Mae'r rhain yn chwahrenau bach, tua maint ffeuen bob.

### **Beth yw cancer y prostad?**

Canser y prostad yw'r cancer mwyaf cyffredin ymhlith dynion yn y DU - mae tua 41,000 o ddynion yn cael diagnosis o ganser y prostad bob blwyddyn.

Mae'n wahanol i'r rhan fwyaf o ganserau gan fod mannau bach o ganser o fewn chwarren y prostad yn gyffredin iawn. Gall y rhain fod yn anweithredol am flynyddoedd.

Mewn nifer fach o ddynion, gall cancer y prostad dyfu'n gyflymach. Gall ymledu i rannau eraill o'r corff, fel yr esgyrn.

Mae cancer y prostad yn cael ei rannu'n dri is-grŵp:

- **Canser y prostad cynnar (cyfyngedig)** – mae'r cancer yn chwarren y prostad yn unig ac nid yw wedi dechrau ymledu.
- **Canser lled-ddatblygedig y prostad** – mae'r cancer wedi ymledu i'r meinwe o amgylch chwarren y prostad.
- **Canser datblygedig y prostad (metastatig)** – mae'r cancer wedi ymledu y tu hwnt i chwarren y prostad i rannau eraill o'r corff (yr esgyrn gan amlaf) lle mae wedi ffurfio tiwmor newydd o'r enw metastasis neu eilaidd.

Gwneir diagnosis o ganser y prostad yn y camau cynnar fel arfer. Mewn rhai dynion, bydd yn ddatblygedig pan wneir diagnosis am y tro cyntaf. Gall cancer y prostad datblygedig ddigwydd hefyd mewn dynion sydd wedi cael eu trin eisoes am ganser y prostad ond bod eu cancer wedi dod yn ôl.

### **Ffactorau risg ac achosion**

Ni wyddom beth sy'n achosi cancer y prostad yn y rhan fwyaf o ddynion. Mae rhai ffactorau risg sy'n gallu cynyddu eich siawns o'i gael.

- Oed – Mae'r risg o ddatblygu cancer y prostad yn cynyddu ag oed. Mae'r risg ymhlith dynion o dan 50 oed yn isel iawn.
- Ethnigrwydd - mae dynion du Affricanaidd a du Caribiaidd yn fwy tebygol o ddatblygu cancer y brostad na dynion gwyn. Mae gan ddynion Asiaidd lai o risg o'i ddatblygu.
- Hanes teuluol - Mae dynion sydd â pherthnasau agos (tad, brawd, taid neu ewythr) oedd â chanser y prostad ychydig yn fwy tebygol o'i ddatblygu eu hunain. Gall genyn diffygiol a geir mewn rhai dynion sydd â mamau neu chwiorydd sydd wedi cael cancer y fron hefyd gynyddu'r risg. Credir mai dim ond tua 5–10% (neu llai nag 1 mewn 10) o ganserau'r prostrad sy'n cael eu hachosi gan enyn diffygiol a etifeddir. Siaradwch â'ch meddyg os ydych chi'n poeni am eich hanes teuluol.

- Ymarfer corff – Gall gwneud mwy o ymarfer corff helpu i leihau'r risg o ganser y prostad.
- Deiet – Mae cyfraddau canser y prostad yn uwch ymhlith dynion o wledydd y gorllewin, fel y DU, Ewrop a'r UDA nag ymhlith dynion o wledydd y dwyrain fel Tsieina a Japan. Credir y gallai hyn fod oherwydd bod deiet gorllewinol yn dueddol gynnwys mwy o fraster anifeilaidd a llai o ffrwythau a llysiau ffres.

Mae dynion Asiaidd yn dueddol o fwyta mwy o soy yn eu deiet. Gallai hyn leihau'r risg o ganser y brostad, ond mae angen mwy o ymchwil i gadarnhau hyn.

Gall bwyta llawer o galsiwm (o gynnyrch llaeth, er enghraifft) gynyddu'r risg.

Gall tomatos a chynnyrch tomatos (fel saws coch) helpu i amddiffyn rhag canser y brostad.

## **Symptomau**

Yn aml ni fydd canser y prostad cynnar yn achosi unrhyw symptomau. Mae'r canser yn tyfu'n araf yn aml ac efallai na fyddwch yn profi unrhyw symptomau am flynyddoedd lawer.

Mewn dynion dros 50 oed mae chwarren y prostrad yn aml yn chwyddo o ganlyniad o gyflwr di-ganser o'r enw hyperplasia neu hypertroffi prostatig (BPH).

Mae symptomau BPH a chanser y prostad yn debyg ac mae'n cynnwys:

- anhawster pasio dŵr
- pasio dŵr yn amlach nag arfer, yn enwedig yn y nos
- poen wrth basio dŵr (nid yw hyn yn gyffredin)
- gwaed yn yr wrin (nid yw hyn yn gyffredin).

Bydd symptomau canser y prostad datblygedig yn dibynnu ar ba ran o'r corff mae'r canser wedi ymledu. Yn aml bydd canser y prostad yn ymledu i'r esgyrn a gall hyn fod yn boenus.

Gall symptomau cyffredinol canser datblygedig gynnwys:

- bod yn fwy blinedig nag arfer
- teimlo'n sâl
- colli archwaeth bwyd.

Os byddwch yn sylwi ar unrhyw symptomau newydd sy'n para rhyw bythefnos neu fwy, dylech eu trafod â'ch meddyg teulu.

Gall y symptomau hyn gael eu hachosi gan gyflyrau eraill, ond mae'n bwysig bod eich meddyg teulu'n eu harchwilio.

### **Sut mae gwneud diagnosis o ganser y prostad?**

Y cam gyntaf i'r rhan fwyaf o ddynion fydd gweld eu meddyg teulu. Byddant yn eich archwilio ac yn eich holi am eich iechyd cyffredinol. Bydd y meddyg teulu'n gwneud archwiliad rhefr digidol (DRE) a phrawf gwaed PSA.

### **Archwiliad rhefr digidol**

Mae'r rhefr (y pen ôl) yn agos at chwarren y prostrad. Gall eich meddyg deimlo unrhyw annormalrwydd yn y prostrad drwy roi bys gyda maneg amdano yn y rectwm. Gall hyn fod yn anghyfforddus ond ni ddylai fod yn boenus.

### **Prawf gwaed PSA**

Cymerir sampl o waed i chwilio am PSA (antigen penodol i'r prostrad). Mae PSA yn brotein a gynhyrchir gan y prostrad ac mae lefelau isel ohono'n normal. Mae dynion â chanser y prostrad yn dueddol o fod â lefelau uwch o PSA yn eu gwaed. Fodd bynnag, nid yw'r prawf PSA yn ddibynadwy bob amser. Bydd gan rai dynion â chanser y prostad PSA normal ac ni fydd gan eraill sydd â PSA uwch ganser y prostad.

Gall y canlynol godi lefel y PSA:

- haint ar yr wrin
- haint ar y prostad (prostitis)
- biopsi diweddar ar y prostad
- bod â chathetr wrinaidd (tiwb i ddraenio wrin)
- llawdriniaeth ar y prostad neu'r bledren
- tylino prostatig.

Gall lefel y PSA godi hefyd wrth i ddynion heneiddio.

Gall canser y prostad fod yn gyfrifol am lefelau PSA uwch nag arfer. Bydd dynion â lefelau annormal o PSA fel arfer yn cael eu hatgyfeirio am brofion pellach.

### **Yn yr ysbyty**

Os bydd angen rhagor o brofion arnoch byddwch yn cael eich hatgyfeirio at feddyg neu nyrs arbenigol yn yr uned wroleg yn eich ysbyty lleol.

Gall y profion canlynol helpu i wneud diagnosis o ganser y prostrad. Efallai na fydd angen i chi gael pob un ohonynt. Bydd y meddyg yn esbonio pa brofion sydd eu hangen arnoch.

### **Sgan uwchsain o'r rectwm (TRUS)**

Mae hwn yn defnyddio tonnau sain i greu darlun o'r prostrad. I sganio chwarren y prostad, mae chwiliedydd y cael ei roi drwy dwll y pen ôl. Gall y sgan fod yn anghyfforddus, ond ni fydd yn cymryd mwy nag ychydig funudau.

### **Biopsi**

Cymerir sawl sampl o feinwe (biopsi) o'r prostad er mwyn eu harchwilio o dan ficrosgop. Cymerir y biopsiau fel arfer gyda nodwydd sy'n cael ei phasio drwy wal twll y pen ôl (rectwm). Gelwir hyn yn fiopsi TRUS. Bydd y biopsi fel arfer yn cael ei gynnal ar yr un pryd â'r uwchsain.

Weithiau cymerir y biopsi drwy'r croen y tu ôl i'r ceilliau (y perinewm). Gelwir hwn yn fiopsi trawsberineal.

Bydd biopsi'n aml yn anghyfforddus ond ni fydd yn boenus fel arfer. Efallai y byddwch yn cael anesthetig lleol i'w wneud yn llai anghyfforddus. Rhoddir gwrthfotigau i leihau'r perygl o haint.

Yn anffodus, os oes canser yn y prostad nid fydd biopsi'n ei ganfod bob tro. Bydd hyn yn digwydd mewn tua 1 mewn 10-20 o ddynion (5–10%). Os yw biopsi yn negyddol efallai y cewch sgan MRI i chwilio am ganser y gall y biopsi fod wedi'i fethu. Efallai y bydd angen ailadrodd y biopsi wedyn. Weithiau bydd y PSA yn cael ei fesur eto ar ôl rhai misoedd. Os bydd lefel y PSA yn dechrau codi, gellir ailadrodd y biopsi.

### **Sgan MRI**

Mae'r prawf yn defnyddio magneteg i greu darlun manwl o rannau o'ch corff. Mae'r sganiwr yn fagnet pwerus felly efallai y gofynnir i chi gwblhau a llofnodi rhestr wirio i sicrhau ei fod yn ddiogel i chi. Bydd eich nyrs neu'r meddyg yn egluro hyn wrthyhch.

## Profion pellach

Os yw'r biopsi yn dangos bod cancer yn bresennol, efallai y bydd angen rhagor o brofion i wirio a yw'r cancer wedi ymledu y tu hwnt i'r prostad. Gallai'r rhain gynnwys:

- sgan esgyrn
- pelydr-x o'ch brest a'ch esgyrn
- sgan CT

Bydd eich meddyg neu nyrs yn egluro pa brofion fydd eu hangen arnoch a beth fydd yn digwydd.

Gall aros am ganlyniadau profion fod yn amser pryderus i chi. Gall helpu os gallwch rannu eich pryderon â pherthynas neu ffrind. Gallwch hefyd siarad â'n harbenigwyr cymorth cancer ar 0808 808 00 00.

## Camau a graddio

### Camau

Mae gwybod cam eich cancer yn helpu meddygon i benderfynu ar y driniaeth orau i chi.. Gellir rhannu cancer y prostad yn bedwar cam:

- **Cam 1** Mae'r cancer yn fach iawn ac wedi ei gyfyngu i'r prostad.
- **Cam 2** – Gellir teimlo'r cancer fel lwmp caled yn ystod archwiliad rhefrol, ond mae'n dal o fewn y chwarren brostad.
- **Cam 3** – Mae'r cancer wedi dechrau torri trwy gapsiwl allanol y chwarren brostad ac fe allai fod yn y tiwbiau cyfagos sy'n cludo semen (fesciau semenol).
- **Cam 4** – Mae'r cancer wedi ymledu y tu hwnt i'r chwarren brostad i strwythurau cyfagos megis y bledren neu dwll y pen ôl (rectwm), neu i organau pellach megis yr esgyrn neu'r afu.

### Graddio

Mae gradd y cancer yn rhoi syniad o ba mor sydyn y gallai dyfu. Mae cancer y brostad wedi ei raddio yn ôl ymddangosiad y celloedd cancer pan edrychir arnynt o dan ficrosgop.

Y system Gleason yw'r ffordd fwyaf cyffredin o raddio'r celloedd. Mae'n edrych ar batrwm y celloedd cancer yn y prostad. Mae pum patrwm, wedi'u graddio 1–5. Mae sgôr 1 yn golygu bod celloedd y prostad yn edrych yn normal, a sgôr 5 yw'r mwyaf annormal. Mae pob un o samplau'r biopsi'n cael eu graddio ac



mae'r ddau batrwm sy'n digwydd amlaf yn cael eu hadio â'i gilydd i roi sgôr Gleason. Er enghraifft, os mai'r patrwm mwyaf cyffredin yw sgôr 4 a bod yr ail fwyaf cyffredin yn 3, bydd y sgôr Gleason yn 7. Caiff ei ysgrifennu weithiau fel 4+3.

Yr isaf yw'r sgôr Gleason, yr isaf yw gradd y cancer. Mae canserau graddfa isel (6 neu is) fel arfer yn tyfu'n araf ac yn llai tebygol o ymledu.

Mae sgôr o 7 yn radd gymedrol. Mae tiwmorau gradd uchel (8-10) yn debygol o dyfu'n gyflymach ac yn fwy tebygol o ymledu. Weithiau fe elwir tiwmorau gradd uchel yn diwmorau ymosodol.

## Triniaeth

Nid yw penderfynu ar y driniaeth orau'n hawdd bob amser. Bydd yn rhaid i'ch meddyg feddwl am nifer o bethau. Y pwysicaf o'r rhain yw:

- eich iechyd cyffredinol
- cam a gradd y cancer
- lefel eich PSA
- sgîl effeithiau tebygol y driniaeth
- eich barn chi am y sgîl effeithiau tebygol.

Mae'n bwysig eich bod yn trafod unrhyw driniaeth â'ch meddyg, i wneud yn siŵr eich bod yn deall beth mae'n ei olygu. Mae'n syniad da i fynd â rhywun gyda chi sy'n gallu siarad eich iaith chi a Saesneg. Mae'n bosib y bydd cyfieithwyr ar gael os bydd angen un arnoch, ond ceisiwch roi gwybod ymlaen llaw i'r ysbyty cyn eich apwyntiad os hoffech gael un wrth law.

Bydd angen i chi lofnodi ffurflen gydsynio i ddangos eich bod yn deall ac yn cytuno i gael y driniaeth. Ni fyddwch yn cael unrhyw driniaeth oni bai eich bod wedi cytuno i'w chael.

Rydym wedi egluro'r gwahanol opsiynau ar gyfer triniaeth yma:

<b>Canser y prostad cynnar</b>	<b>Canser y prostad datblygedig lleol</b>	<b>Canser y prostad datblygedig</b>
Gwyliadwriaeth weithredol	Radiotherapi	Therapi hormonaidd
Aros gwyliadwrus	Therapi hormonaidd	Llawdriniaeth –

		orchidectomi
Llawdriniaeth - prostatectomi	Aros gwyliadwrus	Cemotherapi
Radiotherapi	Llawdriniaeth – prostatectomi, neu orchidectomi	Radiotherapi lliniarol
Therapi hormonaidd		Rheoli symptomau

### **Gwyliadwriaeth weithredol**

Bydd eich meddygon neu nyrs arbenigol yn eich gweld yn rheolaidd i weld a yw'r cancer yn tyfu ar raddfa gyflymach.

Mae'r rhan fwyaf o ganserau'r prostad gradd isel, cam cynnar yn tyfu'n araf iawn ac efallai na fyddant byth yn achosi unrhyw symptomau. Oherwydd hyn, mae rhai dynion yn penderfynu ar y cyd â'u harbenigwyr i aros i weld a yw'r cancer yn tyfu (datblygu) cyn dechrau ar unrhyw driniaeth.

Byddwch yn cael apwyntiadau rheolaidd yn yr ysbyty neu â'ch meddyg teulu. Bydd lefel eich PSA yn cael ei wirio bob 3–4 mis a byddwch yn cael archwiliad rhesymol digidol bob 6–12 mis. Ar ôl blwyddyn gallwch gael biopsi prostrad. Bydd eich meddyg neu nyrs arbenigol yn egluro wrthyfych pa mor aml fydd angen i chi gael y profion hyn.

Os nad yw'r cancer yn tyfu na datblygu, mae'n ddiogel parhau â gwyliadwriaeth weithredol. Byddwch yn cael llai o brofion ac archwiliadau bob blwyddyn.

Os bydd y profion hyn yn dangos bod y cancer yn dechrau tyfu, bydd eich meddygon yn argymhell triniaeth sy'n ceisio gwella'r cancer, megis llawdriniaeth neu radiotherapi.

### **Aros gwyliadwrus**

| Mae hon yn ffordd o osgoi triniaeth cyn hired â phosibl. Fel arfer bydd yn cael ei gynnig i ddynion hŷn, neu'r rhai nad ydynt yn ddigon iach i gael llawdriniaeth neu radiotherapi, sydd â chanser y prostad sy'n tyfu'n araf ac sy'n annhebygol o effeithio arnynt drwy gydol eu hoes naturiol.

Byddwch yn cael eich monitro i weld a ydych wedi datblygu unrhyw symptomau newydd. Byddwch hefyd yn cael profion gwaed rheolaidd i fonitro eich lefelau PSA ac efallai y cewch archwiliadau rhefrol digidol. Byddwch fel arfer yn cael llai o brofion nag mewn gwylidwriaeth weithredol.

Os byddwch yn datblygu symptomau newydd neu os yw lefelau eich PSA yn codi, efallai y cewch gynnig therapi hormonaidd. Os nad oes unrhyw arwydd bod y cancer yn datblygu, mae'n ddiogel i barhau ag aros gwylidwrus.

### **Llawdriniaeth**

Mae gwahanol fathau o lawdriniaeth. Bydd eich meddyg yn trafod y llawdriniaeth maent yn credu sydd orau i chi a'i sgil effeithiau posibl. Mae llawdriniaethau prostad yn cael eu cynnal mewn canolfannau arbenigol felly efallai y bydd angen i chi deithio i'r ysbyty.

### **Prostadectomi**

**Prostadectomi radical** – tynnir y chwarren brostad gyfan, naill ai trwy wneud toriad yn ardal y bol (abdomen) neu trwy doriad rhwng y sgrotwm a thwll y pen ôl. Nod y driniaeth yw cael gwared ar yr holl gelloedd cancer. Dim ond credir nad yw'r cancer wedi ymledu y tu hwnt i'r brostad y gwneir hyn.

**Prostadectomi laparosgopig (llawdriniaeth twll clo)** – pedwar neu bum toriad bychan (tua 1cm yr un) yn ardal y bol (abdomen). Gall y llawfeddyg wedyn dynnu chwarren y prostad gan ddefnyddio offer sy'n ddigon bychan i fynd drwy'r toriadau hyn.

Gellir gwneud y llawdriniaeth hon â pheiriant gyda breichiau robotig sy'n symud yn ofalus, yn araf a manwl iawn. Gelwir y driniaeth hon yn **prostadectomi radical laparoscopig gyda chymorth robotig**.

### **Orchidectomi swpcapsiolar**

Llawdriniaeth i dynnu rhan o'r ceilliau i leihau lefelau'r hormon gwrywaidd testosteron yn y corff.

### **Radiotherapi**

Mae radiotherapi yn trin cancer drwy ddefnyddio pelydrau-x ynni uchel i ddinistrio'r celloedd cancer, gan wneud cyn lleied o niwed â phosibl i gelloedd normal. Os byddwch yn cael radiotherapi byddwch yn cael therapi hormonaidd hefyd.

Rhoddir y radiotherapi fel arfer o'r tu allan i'r corff (radiotherapi pelydr allanol). Y nod yw dinistrio'r holl gelloedd cancer. Gelwir y driniaeth hon yn

radiotherapi radical a gall bara hyd at 8 wythnos. Fel arfer bydd y driniaeth yn cael ei rhoi bum niwrnod yr wythnos (dydd Llun i ddydd Gwener). Bydd y driniaeth yn cymryd ychydig funudau bob dydd.

Bydd rhai dynion â chanser y prostad datblygedig lleol yn cael radiotherapi mewanol (**bracitherapi**). Bydd hyn yn golygu hau hadau ymbelydrol bychain yn y tiwmor. Ymddengys fod radiotherapi a bracitherapi'r un mor effeithiol i wella canser y brostad. Efallai y bydd eich meddyg yn awgrymu eich bod yn cael therapi hormonaidd cyn neu ar ôl eich radiotherapi.

Gall dynion â chanser y prostrad datblygedig gael cynnig radiotherapi os yw'r canser yn achosi symptomau, fel poen, neu os yw wedi ymledu i rannau eraill o'r corff, fel yr esgyrn. Gall radiotherapi fod yn effeithiol iawn wrth leddfu symptomau. Gelwir hyn yn **radiotherapi lliniarol**.

Gall radiotherapi radical ar gyfer canser y prostrad achosi sgil effeithiau. Efallai y byddwch yn pasio dŵr yn amlach neu'n gorfod gwneud ar frys, yn profi dolur rhydd neu'n cael anhawster cael codiad. Bydd y sgil effeithiau hyn yn cael eu hegluro wrthyhych cyn i chi ddechrau ar y driniaeth.

Mae gennym ragor o wybodaeth yn eich iaith chi am sut y rhoddir ac y cynllunnir radiotherapi, a rhai o'r sgil effeithiau y gallwch eu profi.

### **Therapi hormonaidd**

Mae hormonau'n helpu i reoli sut mae celloedd yn tyfu a beth maent yn ei wneud yn y corff. Mae canser y prostad yn dibynnu ar yr hormon testosteron i dyfu. Mae hwn yn cael ei gynhyrchu gan y ceiliau. Mae therapiau hormonaidd naill ai'n lleihau faint o testosteron sydd yn y corff neu mae'n blocio'r celloedd canser rhag cysylltu â'r hormon. Gellir eu rhoi fel pigladau neu fel tabledi.

Mewn dynion â chanser y prostad cynnar, gellir rhoi therapi hormonaidd ar ei ben ei hun i ddynion nad ydynt yn ddigon da i gael llawdriniaeth neu radiotherapi. Gellir ei roi hefyd i ddynion sydd wedi cael eu monitro drwy ddefnyddio aros gwylidwrus ac sydd â chanser sydd wedi datblygu ymhellach. Gellir rhoi therapi hormonaidd hefyd cyn cwrs o radiotherapi.

Mewn dynion â chanser y prostad datblygedig cyfyngedig rhoddir therapi hormonaidd cyn radiotherapi (fe'i gelwir yn therapi neo-gynorthwyol) gan ei fod yn gallu gwneud radiotherapi yn fwy effeithiol. Fe'i rhoddir weithiau ar ôl radiotherapi (therapi cynorthwyol) i leihau'r risg y bydd y canser yn dychwelyd. Gellir rhoi therapi hormonaidd hefyd fel triniaeth ar ei phen ei hun.

Therapi hormonaidd yw'r brif driniaeth ar gyfer dynion â chanser y prostad datblygedig. Gall grebachu'r canser, oedi ei dwf, a lleihau symptomau.

Gall therapïau hormonaidd achosi sgil effeithiau, fel:

- anhawster cael codiad (analluedd rhywiol)
- llai awydd am ryw
- teneuo'r esgyrn
- pyliau o wres a chwysu
- bronau'n chwyddo a thynwch
- ennill pwysau
- teneuo'r esgyrn
- problemau â'r galon.

### **Cemotherapi**

Mae cemotherapi yn driniaeth sy'n defnyddio cyffuriau gwrth-ganser (cytotocsig) i ddinistrio celloedd canser Mewn canser y prostad datblygedig, fe'i defnyddir i drin canser nad yw bellach yn cael ei reoli gan therapi hormonaidd.

Y nod yw crebachu a rheoli'r canser, a lleddfu symptomau, gyda'r nod o wella ansawdd bywyd.

Mae gennym ragor o wybodaeth yn eich iaith chi am sut y rhoddir cemotherapi a rhai o'r sgil effeithiau y gallwch eu profi.

### **Rheoli symptomau**

Gall canser y prostrad datblygedig achosi symptomau cas, gan gynnwys:

- poen
- blinder
- rhwymedd

Gall y rhain gael eu lleddfu drwy drin y canser ei hun. Weithiau bydd triniaethau'n gweithio'n gyflym a gallwch deimlo'n well ar ôl ychydig ddyddiau. Gall triniaethau eraill gymryd mwy o amser i weithio, felly gall gymryd wythnos neu ddwy cyn y byddwch yn dechrau teimlo'n well.

Heblaw am drin y canser ei hun, mae nifer o ffyrdd eraill o helpu i leddefu symptomau. Gall eich meddyg neu nyrs arbenigol roi rhagor o wybodaeth i chi.

## Treialon clinigol

Cynhelir treialon ymchwil cancer i geisio darganfod triniaethau newydd a gwell ar gyfer cancer. Gelwir treialon a wneir ar gleifion yn dreialon clinigol. Mae llawer o ysbytai'n awr yn cymryd rhan yn y treialon hyn. Holwch eich meddyg am dreialon cancer y prostad sy'n cael eu cynnal ar y pryd.

## Dilyniant

Ar ôl i'ch triniaeth ddod i ben, byddwch yn cael archwiliadau rheolaidd a phrofion gwaed PSA. Bydd y rhain fel arfer yn parhau am sawl blwyddyn.

Bydd rhai dynion yn gweld eu harbenigwr cancer yn rheolaidd tra bydd eraill yn cael prawf PSA yn eu meddygfa leol. Gallai fod yn ddefnyddiol i chi siarad â'ch arbenigwr cancer ynglŷn ag archwiliadau ar ôl y driniaeth, a gyda phwy y gallwch drafod unrhyw broblemau.

## Ymdopi â chanser y prostad

Gall triniaethau achosi sgil effeithiau cas sy'n gallu achosi pryder.

**Problemau rhywiol** – efallai na fyddwch yn teimlo fel cael rhyw neu'n ei chael yn anodd cael neu gynnal codiad. Gelwir hyn yn analluedd rhywiol (ED). Os ydych chi'n teimlo ei bod yn anodd ymdopi â'r effaith ar eich bywyd rhywiol gallwch gael gair â'ch meddyg. Mae meddygon sy'n trin cancer y prostad wedi arfer siarad am y materion hyn a gallant eich cynghori. Mae yna ffyrdd ymarferol sy'n help i drechu analluedd a gall eich meddyg roi gwybodaeth i chi amdanynt. Mae gan y rhan fwyaf o ysbytai nyrsys arbenigol hefyd all drafod y materion hyn gyda chi.

**Anymataliaeth wrinol** – gall y cancer a rhai triniaethau achosi hyn. Mae ffyrdd gwahanol o ymdopi â'r broblem. Siaradwch â'ch meddyg neu nyrs os ydych chi'n poeni am hyn. Mae gan rai ysbytai staff meddygol a all roi cyngor i chi am anymataliaeth.

**Y frest yn chwyddo** – gall hyn ddigwydd weithiau gyda'r therapi hormonaidd bicalutamide (Casodex). Gall cymryd dos isel o gyffur hormonaidd arall o'r enw tamoxifen, atal y frest rhag chwyddo. Gall eich meddyg awgrymu eich bod yn cael cwrs byr o radiotherapi dos isel ar eich brest cyn i chi ddechrau cymryd bicalutamide. Gallai hyn atal eich brest rhag chwyddo ac ychydig iawn, os o gwbl, o sgil effeithiau sydd a achosir.

## Eich teimladau

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn teimlo wedi ei llethu pan ddywedir wrthynt fod ganddynt ganser ac maent yn profi sawl emosiwn gwahanol. Gall y rhain gynnwys dicter, atgasedd, euogrwydd, pryder ac ofn. Mae'r rhain i gyd yn adweithiau naturiol ac maent yn rhan o'r broses mae llawer o bobl yn mynd trwyddi wrth geisio dygymod â'u salwch. Does dim ffordd gywir nac anghywir o ymateb. Byddwch yn ymdopi â phethau yn eich ffordd eich hun.

## Rhagor o wybodaeth yn eich iaith

- Taflen ffeithiau canser y fron
- Taflen ffeithiau cemotherapi
- Taflen ffeithiau hawlio budd-daliadau
- Taflen ffeithiau canser y coluddyn mawr
- Taflen ffeithiau canser yr ysgyfaint
- Taflen ffeithiau radiotherapi
- Taflen ffeithiau sgîl-ffeithiau triniaeth canser
- Taflen ffeithiau llawdriniaeth
- Taflen ffeithiau yr hyn y gallwch ei wneud i helpu'ch hun

Mae'r daflen ffeithiau hon wedi cael ei hysgrifennu, ei hadolygu a'i golygu gan dîm Datblygu Gwybodaeth Canser Cymorth Canser Macmillan. Mae wedi cael ei chymeradwyo gan ein golygydd meddygol, Dr Tim Iveson, Oncolegydd Meddygol Ymgynghorol.

Diolch i Bruce Turner, Ymarferydd Nyrsio Wro-Oncoleg; Paula Allchorne, Rheolwr Prosiect Clinigol Goroesi Prostad, a'r bobl wedi'u heffeithio gan ganser sydd wedi adolygu'r daflen ffeithiau hon.

Rydym wedi defnyddio gwybodaeth o lawer o ffynonellau dibynadwy i ysgrifennu'r daflen ffeithiau hon. Mae'r rhain yn cynnwys:

- DeVita, et al. *Cancer: Principles and Practice of Oncology*. 8<sup>fed</sup> Argraffiad. 2008. Lippincott Williams a Wilkins.
- Hogle, W. *Prostate Cancer*. 2009. Oncology Nursing Society.
- Kirby R, et al. *Prostate Cancer: Principles and Practice*. 2006. Taylor a Francis.
- The British Association of Urological Surgeons. Guidance for managing Prostate Cancer. [www.baus.org.uk](http://www.baus.org.uk) (cyrchwyd Gorffennaf 2011).

- Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE). Prostate cancer: Diagnosis and treatment. [www.nice.org.uk](http://www.nice.org.uk) (cyrchwyd Gorffennaf 2011).
- NCCN Clinical Practice Guidelines in Oncology: Prostate Cancer. 2011.

Rydym yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir gennym yn gywir, ond ni ddylid dibynnu arni i adlewyrchu cyflwr presennol ymchwil feddygol, sy'n newid o hyd. Os ydych chi'n poeni am eich iechyd, siaradwch â'ch meddyg. Ni all Macmillan fod yn gyfrifol am unrhyw golled neu ddifrod sy'n deillio o unrhyw gamgymeriad yn yr wybodaeth hon na gwybodaeth trydydd parti, fel gwybodaeth ar wefannau rydym yn rhoi dolenni atynt.

© Cymorth Canser Macmillan 2014. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (261017), Yr Alban (SC039907) ac Ynys Manaw (604). Swyddfa gofrestredig 89 Albert Embankment, Llundain, SE1 7UQ.

MAC15138\_Welsh





## Prostate cancer

This fact sheet is about how prostate cancer is diagnosed and treated.

We also have fact sheets in your language about chemotherapy, radiotherapy, surgery, side effects of cancer treatment, what you can do to help yourself, claiming benefits and end of life.

We hope this fact sheet answers your questions. If you have any more questions, you can ask your doctor or nurse at the hospital where you are having treatment.

If you would like to talk to our cancer support specialists about this information in your language, we have interpreters for non-English speakers. You can call the Macmillan Support Line free on **0808 808 00 00**, Monday–Friday, 9am–8pm. If you have problems hearing you can use textphone **0808 808 0121**, or Text Relay. Or you can go to our website **macmillan.org.uk**

This fact sheet is about:

- What is cancer?
- The prostate
- What is prostate cancer?
- Causes and risk factors
- Symptoms
- How is prostate cancer diagnosed?
- Staging and grading
- Treatment
- Clinical trials
- Follow up
- Coping with prostate cancer
- Your feelings
